



Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 9 Rhagfyr 2016

Yn bresennol:

Yr Ysgrifennydd Parhaol
(Cadeirydd)
Gillian Baranski
Gawain Evans
Owen Evans
Sioned Evans
Jeff Godfrey
Andrew Goodall
Peter Kennedy
Natalie Pearson
David Richards
Elan Closs Stephens
James Turner
Adrian Webb
Ann Keane
James Price
Lynne Schofield
Sarah Rhodes

Hefyd yn bresennol:

Catrin Sully (Eitem 1)
Caren Fullerton (Eitem 3)
Marcella Maxwell (Eitem 4)
Andrew Phillips (Eitem 4)
Darran Davies (Eitem 5)
Jo Glenn (Eitem 6)

Ymddiheuriadau:

Toby Mason

Yr Ysgrifenyddiaeth:

Emma Alexander
Sarita Marshall

Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol Sarah Rhodes a Lynne Schofield, sef aelodau newydd Bwrdd Cysgodol y Gwasanaeth Sifil, ar sail rhannu swydd. Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol y buddiannau i'r sefydliad oedd yn deillio o'r trefniant rhannu swyddi.

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Parhaol at benodiad Shan Morgan fel yr Ysgrifennydd Parhaol newydd, a nododd y byddai Shan yn dechrau yn ei swydd ym mis Chwefror.

Llywodraethu a Pherfformiad

1. Monitro Cynnydd ar Gyflawni – y Rhaglen Lywodraethu [Bwrdd(16)074]

- 1.1 Cyflwynwyd papur gan Catrin Sully, Dirprwy Bennaeth Swyddfa'r Cabinet, oedd yn amlinellu'r egwyddorion ar gyfer monitro'r Rhaglen Lywodraethu newydd, gan nodi'r angen i ymwreiddio darpariaeth sy wedi'i halinio i'r pedair strategaeth drawsbynciol. Clywodd y Bwrdd y

byddai gweithredu dull cyffredin o gynllunio busnes yn darparu mwy o dryloywder a chysondeb.

- 1.2 Trafododd y Bwrdd y gwersi a ddysgwyd o'r Rhaglen flaenorol a'r cynnig i adrodd yn erbyn ymrwymadau maniffesto sy wedi'u blaenoriaethu yn unig. Nodwyd hefyd y gallai'r llwythi gwaith trymach a fydd o bosib yn deillio o'r Trefniadau Pontio Ewropeaidd effeithio ar y gwaith hwn.
- 1.3 Cytunodd y Bwrdd:
 - fod rôl i'r blaid wleidyddol o ran olrhain ymrwymadau maniffesto ac y dylid codi hyn gyda'r Cynghorydd Arbennig arweiniol.
 - y dylai'r Bwrdd ganolbwyntio ar y materion strategol, gan olrhain ymrwymadau mwy sylweddol/proffil uchel yn y Rhaglen Lywodraethu a'u cysylltu â dangosyddion byd go iawn;
 - er na fyddai manylion y strategaethau trawsbynciol yn hysbys tan wanwyn/haf 2017, dylid cychwyn ar y broses o bennu'r ymrwymadau mwy sylweddol/proffil uchel i'w holrhain gan y Bwrdd. Dylid defnyddio'r system gyffredin ar gyfer cynllunio busnes fel man cychwyn ond, nes y byddai pob maes yn gallu adrodd drwy'r System Rheoli Perfformiad Corfforaethol, dylai'r Bwrdd dderbyn adroddiad bob dau fis gan Swyddfa'r Cabinet.
 - fod angen i'r Grwpiau sicrhau bod ymdrechion i symud i'r System Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn parhau.
- 1.4 Gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol i arweiniad cadarn ar rôl y Bwrdd yn y gwaith o fonitro'r rhaglen gael ei ddarparu i'r Ysgrifennydd Parhaol newydd cyn gynted â phosib ar ôl iddi gychwyn yn y swydd.

2. Adroddiad Cyllid [Bwrdd (16)068]

- 2.1 Cyflwynwyd papur gan Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, oedd yn amlinellu gwybodaeth ynghylch rhagolygon alldro 2016-17 a diweddariad am sefyllfa (mis 7) y cronfeydd wrth gefn.
- 2.2 Dywedodd wrth y Bwrdd fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi cytuno i rai dyraniadau pellach ar gyfer y Grwpiau. Dywedodd Gawain ei fod yn parhau i drafod materion gyda Phenaethiaid y Timoedd Gweithrediadau.
- 2.3 Clywodd y Bwrdd fod y Cyfarwyddwr Cyllid wedi sefydlu grŵp bach i ystyried alinio adnoddau.

Corfforaethol

3. Rhaglen Technoleg, Gwybodaeth a Chyfathrebu ar gyfer y Dyfodol [Bwrdd(16)069]

- 3.1 Darparodd Caren Fullerton, y Prif Swyddog Digidol, ddiweddariad ar y Rhaglen Technoleg, Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ar gyfer y Dyfodol, gan adrodd bod gwaith i wella cadernid yn y system TGCh yn parhau ac y byddai'r gwaith hwn yn cysylltu â'r hyn oedd ar y gweill ar gynllunio parhad busnes. Dywedodd y Prif Swyddog Digidol fod y

gwelliannau a wnaed yn golygu ei bod yn haws erbyn hyn rhagweld problemau a allai godi.

- 3.2 Clywodd y Bwrdd fod Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol, fel rhan o'i phroses leihau risgiau, yn ymgynghori â'r busnes yn fwy wrth wneud penderfyniadau allweddol, gan gynnwys dewis dyfais symudol i ddisodli'r dyfeisiadau BlackBerry yn y sefydliad. Yn dilyn amlinelliad o gostau a manteision yr opsiynau a ddarparwyd, cytunodd y Bwrdd i'r ddyfais oedd wedi'i hargymell.
- 3.3 Cytunwyd y dylid darparu eglurhad ar y rheolau ynghylch perchnogaeth a defnyddio ffonau personol at ddibenion busnes, a defnyddio ffonau busnes at ddibenion personol, ac y dylid rhoi ystyriaeth i anghenion rhannu perchnogaeth o fewn rhai timoedd.
- 3.4 Clywodd y Bwrdd fod swm sylweddol o ddata i gael ei drosglwyddo i'r cwmwl, yn benodol y data oedd wedi'i storio o fewn y system iShare. Byddai pob cam o'r broses fudo yn cael ei brofi cyn symud i'r cwmwl, ac yr oedd dyddiad y symud yn cael ei ystyried.
- 3.5 Nododd y Bwrdd fod angen ystyried darparu adnoddau ar gyfer yr adnodd TGCh corfforaethol.
- 3.6 Adroddodd y Prif Swyddog Digidol fod egwyddorion allweddol y Strategaeth TGCh yn cael eu hymwreiddio. Er enghraifft, yr oedd angen i bob cais TGCh newydd dderbyn cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Cynllunio Atebion Technoleg Gwybodaeth erbyn hyn.
- 3.7 Diolchodd y Bwrdd i Caren am ddarparu trosolwg strategol ar y rhaglen, yn ogystal â'r manylion ynghylch y dechnoleg, am y gwaith i wella cadernid ac am ei harweinyddiaeth wrth ddod â mwy o eglurder a chydgyssylltu mewn TGCh ar draws y sefydliad.

4. Cyfrif Stoc Paratoi at y Dyfodol [Bwrdd(16)070]

- 4.1 Cyflwynwyd y papur gan Marcella Maxwell, Dirprwy Gyfarwyddwr, Datblygu a Newid Sefydliadol. Er bod y rhaglen yn ei chyfnod cyflwyno terfynol, nododd y byddai rhai agweddau yn parhau y tu hwnt i oes y rhaglen. Yr oedd trosolwg, gan gynnwys blaenoriaethau a heriau'r dyfodol, yn cael ei ddatblygu ar gyfer yr Ysgrifennydd Parhaol newydd. Byddai'r Grŵp Cyflawni Paratoi at y Dyfodol yn parhau er mwyn cynnal momentwm y gwaith.
- 4.2 Adroddodd Andrew Phillips, Pennaeth Tîm Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, fod arbedion o ryw £37 miliwn mewn arian parod ac adleoli staff wedi'u cyflawni ac y byddai arbedion pellach yn cael eu cyflawni yn y dyfodol. Yn ychwanegol at yr arbedion ariannol, yr oedd sawl mantais anariannol hefyd wedi'u cyflawni, er enghraifft o ran arweinyddiaeth a galluogrwydd.
- 4.3 Fel y Cyfarwyddwr Anweithredol ar y Grŵp Goruchwylio, bu i James Turner fyfyrion ar y cyfraniad cadarnhaol a wnaed gan y Rhaglen. Bu i'r Bwrdd gymeradwyo allbwn y Rhaglen a nodi, yng ngoleuni'r llwythi gwaith trymach fyddai efallai yn deillio o bontio Ewropeaidd a'r costau

rhedeg llai, fod gwaith i'w wneud yn y maes hwn o hyd.

- 4.4 Gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol i'w ddiolchiadau gael eu trosglwyddo i Andrew Slade, Cyfarwyddwr Amaeth, Bwyd a Morol, Phil Lewis, Rheolwr y Rhaglen Paratoi ar gyfer y Dyfodol, a'r Grŵp Goruchwylio, gan gynnwys Ochr yr Undebau Llafur, am y gwaith a wnaed ganddynt.

5. Cwynion a'r Gwersi a Ddysgwyd [Bwrdd(16)071]

- 5.1 Cyflwynodd David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu, yr eitem, gan fynegi ei ddiolchgarwch i Darran Davies am gamu mewn i'r rôl pennaeth cwynion. Adroddodd fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn eithaf bodlon gyda'r ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru yn ymdrin â chwynion.
- 5.2 Cyflwynodd Darran Davies y papur, gan nodi bod llawer o gwynion yn cael eu trin o fewn Is-adrannau, heb gael eu cyfeirio at y tîm Cyngor ar Gwynion, a bod risg yma nad oedd prosesau iawn yn cael eu dilyn na gwersi yn cael eu lledaenu.
- 5.3 Bu i'r Bwrdd drafod y meini prawf ar gyfer cwyn ffurfiol, gan nodi ei bod yn bwysig sicrhau bod cysondeb yn y ffordd yr ymdrinnir â chwynion. Cytunwyd bod angen ymgyrch gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o'r Polisi Cwynion a sut y dylid defnyddio'r polisi.
- 5.4 Trafododd y Bwrdd a ddylai'r system gwyno gynnwys cwynion mewnol a materion a godir drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Oherwydd natur lafurddwys y gwaith hwn, cytunwyd y dylid rhoi ystyriaeth i bennu materion o ddiddordeb penodol a ddylai gael eu monitro yn y cyfryngau cymdeithasol.
- 5.5 Nododd y Bwrdd nad oedd targedau amser ymateb yn cael eu cyflawni'n gyson, a chytunodd y dylid cyflwyno Dangosydd Perfformiad Allweddol o 85% i sbarduno gwelliant o ran yr amser a gymerwyd i ymateb i gŵyn.
- 5.6 Diolchodd y Bwrdd i Darran am y papur a'r cyflwyniad defnyddiol ar y data, a gofynnodd fod cyflwyniadau i'r Bwrdd yn y dyfodol yn defnyddio'r un fformat.

6. Targedau Amrywiaeth yn y Gweithlu [Bwrdd(16)072]

- 6.1 Cyflwynwyd papur gan Peter Kennedy, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, a Jo Glenn, Pennaeth Cydraddoldeb yn y Gweithle, oedd yn amlinellu'r gweithgareddau ymgysylltu arfaethedig i gynyddu nifer y staff oedd yn eu hystyried eu hunain yn anabl neu'n berson du neu o gefndir Asiaidd neu Ieafrif ethnig, ac i ddatblygu llysgenhadon Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r sefydliad fel cyflogwr o ddewis.
- 6.2 Trafododd y Bwrdd y pecyn profiad gwaith a gynigiwyd gan y sefydliad a'r cynnig i redeg cynllun pilot profiad gwaith ar gyfer tua 15 o ddisgyblion o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Byddai hyn yn ffocysu ar sicrhau bod y disgyblion yn cael profiad ardderchog y gellid ei gyfleu i'w hysgolion a'u cymunedau.

- 6.3 Cytunodd y Bwrdd i'r cynigion i gynyddu'r niferoedd o staff oedd yn ystyried eu hunain yn anabl neu'n berson du neu o gefndir Asiaidd neu leiafrif ethnig. Nododd a chroesawodd y Bwrdd y gwaith oedd ar y gweill i hyrwyddo'r Gwasanaeth Sifil fel cyflogwr o ddewis. Nododd hefyd, yn amodol ar ganlyniad llwyddiannus i'r cynllun peilot, y byddai diddordeb ganddo weld dull mwy uchelgeisiol o weithredu'r pecyn profiad gwaith yn y dyfodol.

Eitemau Rheolaidd

7. Cofnodion Drafft 30 Medi a Materion yn Codi [Bwrdd(16)073]

- 7.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi fel cofnod cywir.

8. Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol a Diweddariadau Pwyllgorau [Llafar]

- **Adroddiadau eithrio [Llafar]**

Adroddiadau eithrio

- 8.1 Gwahoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol aelodau'r Bwrdd i rannu'r materion allweddol o'u meysydd nhw. Yr oedd y rhain yn cynnwys diweddariadau ar Tata Steel, Apêl 'Brexit' Erthygl 50 y Goruchaf Lys, a Bil Cymru.
- 8.2 Trafododd y Bwrdd hefyd ymdrin â phwysau ym Mhrif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, yr angen i allu darparu adnoddau yn ôl blaenoriaethau, ac effaith pontio Ewropeaidd. Adroddodd Gawain Evans y byddai'n casglu barn is-grŵp y Pwyllgor Gweithrediadau ar y pwnc ac y byddai'n llunio papur cyn bo hir.
- 8.3 Cytunwyd y dylai'r Ysgrifennydd Parhaol newydd benderfynu ar y camau nesaf, a bod angen ymgynghori â'r Gweinidogion hefyd.

Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol

- 8.4 Gan mai hwn oedd ei gyfarfod Bwrdd olaf, diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i aelodau'r Bwrdd a dywedodd y bu'n bleser gweithio gyda nhw.
- 8.5 Ar ran y Bwrdd, diolchodd Adrian Webb, Cyfarwyddwr Anweithredol, i'r Ysgrifennydd Parhaol am ei wasanaeth hir a'i ymrwymiad i'r Gwasanaeth Sifil, ac am y gwelliannau yr oedd wedi'u rhoi ar waith, a oedd wedi arwain at Wasanaeth Sifil cryfach a mwy cydweithredol.

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, 13 Rhagfyr 2016